12 15 16 18









# A allwch ddyfalu eu hoedran?

# Canllawiau i rwystro gwerthiant o dan oed

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru









## PAHAM NAD YW POBL IFANC YN CAEL PRYNU RHAI NWYDDAU?

Mae pob math o nwyddau gyda chyfyngiadau oedran yn beryglus i iechyd a diogelwch y sawl sydd yn eu defnyddio. Mae rhai nwyddau, fel tybaco yn beryglus beth bynnag yw oed y defnyddiwr, ond mae’r nwyddau hyn i gyd yn gallu bod yn fwy peryglus yn nwylo pobl anaeddfed neu amhrofiadol. Mae rhai er enghraifft alcohol, cyllyll a thân gwyllt yn gynyddol yn ffactor sydd yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae cymdeithas yn mynnu fod cyfyngiadau yn cael eu gosod ar fynediad pobl ifanc i’r nwyddau hyn. Mewn ymateb i’r galw yma mae deddfau wedi eu cyflwyno i wahardd gwerthiant nwyddau i unigolion sydd o dan oed arbennig. Mae pryder cynyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc, a methiant parhaus rhai manwerthwyr i atal gwerthiant wedi arwain at dynhau'r gyfraith gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi i sicrhau cydymffurfiad drwy orfodaeth.

## BETH YW’R GOSB I’R RHAI SY’N TORRI’R GYFRAITH?

Yn ychwanegol i wynebu erlyniad a chael dirwy am dorri’r gyfraith, mae daliwr trwydded yn wynebu cael diddymu eu trwydded i werthu alcohol, ac o dan ddeddfwriaeth newydd a ddaw i rym ar y 1af o Ebrill 2009 fe all manwerthwyr gael eu gwahardd i fyny i 1 flwyddyn rhag gwerthu cynhyrchion tybaco mewn eiddo lle mae cynhyrchion tybaco wedi eu gwerthu i unigolion o dan 18 ar dri achlysur oddifewn i gyfnod o ddwy flynedd. Fe all y cyfyngiadau newydd hyn gael eu gosod ar yr eiddo, ond gellir hefyd eu defnyddio i wahardd person rhag gwerthu neu fod â chyfrifoldebau rheolaeth mewn perthynas â gwerthiant cynhyrchion tybaco.


## PA NWYDDAU SYDD GYDA CHYFYNGIADAU OEDRAN?

Gweler rhestr lawn o nwyddau a'r cyfyngiadau oedran perthnasol ar eu cyfer ar ddiwedd y llyfryn hwn.

## PWY SY'N GYFRIFOL AM ATAL GWERTHIANT O DAN OED?


Cyfrifoldeb y gwerthwr yw sicrhau fod y prynwr yn ddigon hen i brynu cynhyrchion sydd â gwaharddiad oedran. Pwrpas y llyfryn hwn yw helpu chi ac unrhyw un sydd yn gwerthu ar eich rhan , i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.


## SUT Y GALLAF ASESU OED PRYNWR?

Fe all fod yn anodd iawn asesu oedran person o'u hedrychiad. Mae rhai plant a phobl ifanc yn aeddfedu yn gorfforol yn ifanc a ddim yn edrych fel 'plant'. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn dweud na ddylech werthu iddynt os nad ydynt yn ddigon hen. Mae felly yn beryglus i ddibynnu ar yr argraff gyntaf a phenderfyniadau byrbwyll.

**DYMA PAHAM Y DYLECH OFYN AM BRAWF OEDRAN BOB TRO OS OES UNRHYW AMHEUAETH YNGLŶN AG OEDRAN Y PRYNWR.**

## MAE RHAI CWSMERIAID YN AMLWG DROS YR OED IEUENGAF A GANIATEIR, SUT YDW I YN PENDERFYNU OS DYLWN OFYN AM BRAWF OEDRAN?






Yn hytrach na cheisio asesu os yw'r cwsmer yn edrych yn hŷn na'r oed sy'n dderbyniol ar gyfer prynu eitem, mae llawer o fusnesau yn awr yn gweithredu polisi 'Think 21' lle mae'n arferiad i ofyn i unrhyw sydd yn edrych o dan 21 i brofi eu hoedran wrth brynu nwyddau sydd â chyfyngiadau oedran. Ar gyfer sicrwydd ychwanegol fe allwch ymestyn hyn i bolisi 'Think 25'. Eich penderfyniad chwi yw dewis pa bolisi yr ydych yn ei fabwysiadu ;ond mae'n rhaid i chwi sicrhau fod eich polisi yn effeithiol yn adnabod prynwyr o dan oed

## SUT Y GALLAF FOD YN SICR O OEDRAN PRYNWR?

Y mathau derbyniol o brawf oedran fyddai -


- pasport
- trwydded yrru gyda llun
- cerdyn prawf oedran yn cynnwys yr hologram PASS, er enghraifft cerdyn Validate neu Citizencard.


Mae'r logo PASS yn golygu fod y cerdyn yn rhan o gynllun wedi ei achredu i'r Cynllun Cenedlaethol Prawf Oedran Safonol . Dangosir y logo PASS ar y cerdyn 'Validate' isod.





Pa bynnag prawf oedran a gynigir i chwi, mae'n bwysig eich bod yn cymryd amser i'w ddarllen yn ofalus, gan sicrhau mai llun y daliwr sydd ar y cerdyn, a bod y person o leiaf yr oedran isaf a ganiateir i brynu'r cynnyrch perthnasol.










Cofiwch nad yw'r gwerthwr yn debygol o fod gydag unrhyw amddiffyniad os na ofynnir am brawf oedran.

**Os oes unrhyw amheuaeth yn parhau ynglŷn ag oedran rhywun, mae'n RHAID gwrthod gwerthiant**

## ONI FYDD CWSMERIAID YN MYND YN FLIN OS BYDDAF YN GWRTHOD GWERTHU IDDYNT?


Cofiwch bob tro nad oes raid i chi werthu dim byd i neb os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag oedran y prynwr, gwrthodwch werthu yn gwrtais. Fe all fod yn gymorth i gael arwydd wedi ei arddangos yn y siop yn egluro gofynion y gyfraith a'ch polisi busnes mewn perthynas â gwerthiant o dan oed, fel y gall cwsmeriaid eu gweld cyn iddynt geisio prynu, ac y gallwch gyfeirio cwsmeriaid ato os ydych yn gwrthod gwerthu.

## GWERTHIANT DIRPRWYOL (PROXY SALES)

## BETH A DDISGWYLIR I MI EI WNEUD OS YDWYF YN AMAU FOD OEDOLYN YN PRYNU ALCOHOL AR RAN RHYWUN SYDD O DAN OED ?

'Rydych yn torri'r gyfraith os ydych yn caniatáu oedolion i drosglwyddo alcohol sydd wedi ei brynu ar yr eiddo i unigolion o dan 18 , os ydych yn ymwybodol mai dyna yw eu bwriad.

Fe ddylai deliwr trwydded gymryd camau rhesymol i sicrhau nad ydyw hyn yn digwydd.




## SUT Y GALLAF ADNABOD PERSON SYDD YN PRYNU AR RAN UNIGOLION O DAN OED?


Arwyddion i edrych allan am yw –

- oes yna bobl ifanc yn ymgasglu o gwmpas y siop?
- a wnaethoch wrthod gwerthu i unigolyn o dan oed, ac mae oedolyn yn ceisio prynu yr run fath o gynnyrch alcohol yn syth ar ôl hynny;
- a oes cwsmer rheolaidd yn prynu cynnyrch alcohol nad ydynt yn eu prynu yn arferol, e.e. Alcopops neu boteli o seidr cryf;
- cwsmer sydd yn prynu alcohol gyda gwahanol symiau o arian parod (h.y. yn prynu alcohol ar gyfer eu hunain yn ogystal â rhywun o dan 18)
- cwsmer sydd yn defnyddio llawer o newid mân i dalu.

## BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD I ATAL UNIGOLION SYDD YN GWERTHU I'R CYHOEDD AR RAN FY MUSNES RHAG TORRI'R GYFRAITH?

Mae'n rhaid i chwi wneud popeth sydd yn bosib i atal staff ac unigolion eraill sydd yn gweini yn y siop , er enghraifft aelodau o'ch teulu neu wirfoddolwyr, rhag caniatáu i drosedd ddigwydd.

Fe olyga hyn sefydlu system addas a gweithdrefnau er mwyn sicrhau nad yw nwyddau sydd â gwaharddiad oedran arnynt yn cael eu gwerthu i unigolion o dan oed ar eich eiddo busnes. Mae'n rhaid i chi yn ogystal fod yn hyderus fod y system sydd wedi ei sefydlu yn gweithio yn iawn.




Fe ddylech sicrhau fod bob person sydd yn gwerthu i'r cyhoedd yn ymwybodol , yn ychwanegol i'r cyfrifoldeb a osodir ar y busnes, eu bod hwythau yn bersonol yn gyfrifol yn gyfreithiol am unrhyw werthiant maent yn ei wneud.

## BETH A DDISGWYLIR OHONOF ?

Fe ddylai eich system i atal gwerthiant o dan oed gynnwys:-



- hyfforddiant staff
- arwyddion rhybudd
- anogwr till ( till prompts)
- cofnodion o achosion pan mae gwerthiant yn cael ei wrthod – Y 'Cofnod Gwrthod'
- monitro a rheolaeth gan y rheolwr/ perchennog y busnes

## PA FATH O HYFFORDDIANT Y DYLWN EI ROI I STAFF?

Mae'r hyfforddiant yr ydych yn ei roi yn ddibynnol ar faint a natur eich busnes. Fel canllaw sylfaenol, fe fyddai'n rhesymol i ddisgwyl y canlynol hyd yn oed gan y busnes lleiaf.

Fe ddylech sicrhau fod y staff ( ac unrhyw un arall sydd yn gweini yn y siop) yn deall:

- y gwahanol gyfyngiadau oedran sydd ar y nwyddau yr ydych




yn ei werthu, a'r rhesymau paham eu bod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau

- y dylent edrych yn agos ar ddarpar  brynwyr, hyd yn oed yn ystod adegau prysur
- fod yn anodd iawn  asesu oedran rhywun yn gywir. Os nad ydynt yn hollol hyderus ynglŷn ag oedran person fe ddylid gofyn am brawf oedran
- ffurf cynlluniau prawf oedran derbyniol sydd yn weithredol yn lleol
- os oes unrhyw amheuaeth yn parhau, y dylid gwrthod gwerthiant
- beth i'w wneud mewn achos o wrthod gwerthiant ( gweler isod)

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno darparu staff gyda chopi o'r llyfryn hwn, ond nid yw hynny yn eich rhyddhau o'r angen i roi hyfforddiant iddynt ac i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y pwyntiau a restrir uchod

## A DDYLWN GADW COFNOD O'R HYFFORDDIANT A RODDIR?

Fe ddylid cadw cofnod o'r hyfforddiant a roddir i staff, a sicrhau fod unrhyw aelodau newydd o staff hefyd yn derbyn hyfforddiant. Fe ddylid gofyn i staff arwyddo'r cofnod hyfforddi er mwyn cadarnhau eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol, ac wedi deall eu cyfrifoldebau. Mae staff angen eu diweddaru ynglŷn ag unrhyw ychwanegiadau newydd i'r nwyddau sydd ar werth gyda gwaharddiadau  oedran, ac fe ddylai hyfforddiant gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mewn busnesau mwy, fe ddylai'r hyfforddiant fod yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig, gyda monitro rheolaidd o gymhwysedd mewn perthynas â gwerthiant o dan oed.


## ARWYDDION RHYBUDD

Gwnewch ddefnydd effeithiol o arwyddion rhybudd ar yr eiddo. Mae'n rhaid cael arwyddion rhybudd yn ôl y gyfraith mewn perthynas â gwerthiant tybaco a thân gwyllt i unigolion sydd o dan oed, fe ellir defnyddio arwyddion eraill ar gyfer cynhyrchion eraill sydd gyda chyfyngiadau oedran hefyd, ar yr un llinellau a awgrymir yn y pecyn gwybodaeth hwn. Mae arwyddion o'r fath yn atgoffa staff yn ogystal â bod yn arf ataliol ar gyfer prynwyr o dan oed.




## ANOGWR AR GYFER DEFNYDD WRTH Y PWYNT GWERTHU

Defnyddiwch anogwr (prompt) wrth y pwynt gwerthu. Fe ellir rhoi yr arwydd rhybudd cyfyngiad oedran a gynhwysir gyda'r pecyn hwn ar y till, neu wrth ymyl, i weithredu fel nodyn atgoffa cyn i nwyddau gael eu gwerthu.

Mae gan y rhan fwyaf o siopau till EPOS - mae'n aml yn bosib trefnu anogwr ar y till, gan drefnu i arddangos neges yn ymholi oedran y prynwr bob tro mae nwyddau sydd gyda chyfyngiad oedran yn cael ei sganio. Fe fyddai gan siopau mawr yn ddieithriad system EPOS soffistigedig ymhob siop, ac fe ddylid bod ganddynt felly anogwr electronic ar y till.

## DEFNYDD O CCTV

Os oes system CCTV yn weithredol mewn siop, gall y Rheolwyr ei ddefnyddio i fonitro penderfyniadau staff, ai ddefnyddio gogyfer pwrpas hyfforddi.


## GWRTHOD GWERTHIANT

Fe ddylech gadw cofnod o’r achlysuron y gwrthodir gwerthiant . Er hwylustod, efallai y dymunwch ddefnyddio’r ‘Cofnod Gwrthod’ /‘Refusal Record’ a gynhwysir yn y pecyn gwybodaeth. Fe ddylai'r rheolwr neu berchennog y busnes wirio’r cofnod yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei gadw yn gyfredol.

Mae’r tabl isod yn rhestru’r nwyddau gwahanol gyda’r cyfyngiadau oedran sydd yn berthnasol iddynt -

| **Cynnyrch** | **Oed** |
|---|---|
| Sigaréts / Tybaco | 18 |
| Alcohol | 18 |
| Tanau Gwyllt | 18 |
| Popwyr Parti,Capiau | 16 |
| Cyllyll | 18 |
| Toddyddion a Sylweddau Meddwol eraill | 18 |
| Ail-Lenwadau Biwtan Tanwyr Sigaréts | 18 |
| Chwistrellau paent erosol | 16 |
| Ffilmiau DVDs a Gêmau Cyfrifiadur | 12,15,18 |
| Tocynnau’r Loteri Genedlaethol | 16 |
| Petrol | 16 |
| Siocledi Gwirodlyn | 16 |

Mae’r wybodaeth yma wedi ei fwriadu ar gyfer manwerthwyr sydd yn gwerthu nwyddau gyda chyfyngiadau oedran. Fe’i fwriedir fel canllaw yn unig, gan mai dim ond y llysoedd a all ddehongli’r gyfraith. Os ydych angen gwybodaeth bellach ynglŷn â’r gyfraith yna cysylltwch â ni yn Uned Safonau Masnach Gwynedd ar 01766 771000, neu gallwch ein e bostio ar safmas@gwynedd.gov.llyw.cymru